PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer


PRIS 75c | Rhif 383 | TACHWEDD 2015



**Arddangosfa Melanie** t.6



**Belaod yng Nghwmrheidol** t.12



**Prysurdeb Meilyr** t.13


## Cyflafan Paris: stori teulu o Bow Street

Roedd Marian a Iestyn Hughes o Faes-y-garn, Bow Street, ynghyd â'i mab, Seiriol, sy'n gynhyrchydd efo cwmni Rondo yng Nghaernarfon, ym Mharis ar noson y gyflafan ar 13 Tachwedd. Roedden nhw yn y Stade de France pan glywyd ffrwydiad.

"Wnes i, fel y rhan fwya o'r dorf, feddwl mai tân gwyllt oedd o," meddai Seiriol. "Wrth giwio am y trenau, roedd yn amlwg fod rhywbeth mawr o'i le ... dechreuodd y bobl yn y ciw redeg o'r trenau gan afael yn eu plant. Roedd yna banig ym mhob man."

Nododd Iestyn Hughes eu bod nhw





wedi bod yn ymweld â rhai o brif atyniadau'r ddinas yn gynharach y diwrnod hwnnw, ac "roedd pawb yn hapus, a'r tywydd yn addfwyn iawn ...

Wrth weld y Tŵr Eiffel, fe ddaeth ton o deimlad braf heibio. Ymhen llai nag awr, roedd y byd wyneb i waered, bom wedi ffrwydro y tu allan i'r maes pêl-droed, brwydr go iawn ar y strydoedd, cyflafan mewn cyngerdd, cyrffiw ar y strydoedd ... Diolch fyth, rydym oll yn saff, ond mewn mymryn bach o sioc."

Teulu arall sy'n byw yn ardal Montparnasse o'r ddinas yw Sioned Puw Rowlands, ei gŵr a'u dau fab. Un o Bow Street yw Sioned hefyd. Da oedd clywed eu bod nhw'n ddiogel.



# y tincer

Sefydlwyd Medi 1977
Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 0963-925X



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | Rhoshelyg@btinternet.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**CADEIRYDD – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter a'r Trysorydd**

**LLUNIAU – Peter Henley**
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Elin Hefin**
Ynyswen, Stryd Fawr
elinhefin@gmail.com
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Swyddfa'r Post ☎828 201
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Rhagfyr: Deunydd i law: Rhagfyr 4 | Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 16**

**TACHWEDD 18** Dydd Mercher Patagonia - dathlu a diolch - Eirionedd Baskerville yn Drwm, LLGC am 1.15 Mynediad am ddim trwy docyn 01970 632 548

**TACHWEDD 18** Nos Fercher Myfanwy Alexander yn trafod ei chyfrol A oes heddwas? Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb, Penrhyn-coch, am 7.30.

**TACHWEDD 19-20** Nosweithiau Iau a Gwener Theatr Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth â Galeri, Caernarfon yn cyflwyno Dawns ysbrydion yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**TACHWEDD 24** Nos Fawrth Dangosiad o *Pobol yr Ymylon* gan Theatr Troed-y-Rhiw yn Lolfa Pantycelyn am 7.30. Trefnwyd gan Ffrindiau Pantycelyn. Tocynnau: £5.

**TACHWEDD 25** Nos Fercher Theatr Bara Caws yn cyflwyno *Difa* (Dewi Wyn Williams) yngh Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**TACHWEDD 27** Nos Wener 'Cofio John': noson deyrnged i John Rowlands. Cadeirydd: Yr Athro Gruffydd Aled Williams. Cymdeithas Lenyddol y Garn: noson - yn Festri'r Garn am 7.30 o'r gloch

**TACHWEDD 27** Dydd Gwener Cwmni Mega yn cyflwyno *Melltith y Brenin Lludd* yng Nghanolfan y Celfyddydau am 10.00 a 1.30

**TACHWEDD 28** Bore Sadwrn. Bore Coffi yn Festri Capel y Garn, 10 tan 12 o'r gloch. Trefnir gan Gymdeithas y Chwiorydd er budd elusen Y Banc Bwyd lleol.

**TACHWEDD 28** Nos Sadwrn Clive Edwards yn lansio CD newydd yng nghwmni Wil Tân yn Llety Parc, Aberystwyth am 8.00. Holl elw'r noson tuag at Wardiau Ystwyth & Ceredig Ysbyty Bron-glais ac Uned Dialysis Aberystwyth. Tocynnau £10 ar gael cyn bo hir,

**RHAGFYR 4** Nos Wener Noson Goffi a Raffl Fawr; adloniant gan Bois y Gilfach yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

**RHAGFYR 11** Nos Wener Dathlu'r Nadolig gydag Alan, Geraint ac Alun Cymdeithas Lenyddol y Garn: noson - yn Festri'r Garn am 7.30 o'r gloch

**RHAGFYR 13** Nos Sul Cyngerdd Nadolig Côr ABC yn Eglwys Llanbadarn Fawr, am 7.30pm Bydd tocynnau ar gael gan aelodau'r côr ac wrth y drws. I gael mwy o wybodaeth, e-bostiwch corabc10@gmail.com neu dilynwch nhw ar Twitter @CorABC1

**RHAGFYR 14** Nos Lun Cerddorfa Ysgolion Ceredigion a Chôr Corissimo yng Nghanolfan y Celfyddydau am 1.45 a 7.30

**RHAGFYR 17** Nos Iau Plygain traddodiadol yn Eglwys St Ioan (25ain plygain dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn) am 7.30

**RHAGFYR 20** Nos Sul Gwasanaeth Carolau Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6.00

**RHAGFYR 24** Noswyl Nadolig Cymun Bendigaid Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 11.30

**RHAGFYR 29** Nos Wener Caws, gwin a cwis yn neuadd Eglwys St Ioan y Penrhyn, am 7.00


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


## Camera'r Tincer

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn – £120
Hanner tudalen – £80
Chwarter tudalen – £50

neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn – £40 y flwyddyn (10 rhifyn

– misol o Fedi i Fehefin; 6-9 mis

£4 y rhifyn; llai na 6 mis (h.y. 1-5 mis) £6 y rhifyn. Cysyllter â'r Trysorydd)

### Mwyara

Dyma eglurhâd ar sylw yn Nhincer Hydref wrth sôn am fwyara. Coel plant oedd hon, a rhieni yn fwy na neb yn eu rhybuddio rhag bwyta mwyar duon ar ôl Gŵyl Fihangel (29 Medi). Yn ôl y coelion mae'r diafol yn pi-pi neu'n poeri arnynt bob dydd ar ôl 29 Medi. Tebyg fod yna ddryswch wedi bod yn y gorffennol ynglŷn â'r newid yn y calendr ond roedd hyn wedi digwydd yn 1752, ac felly ers amser mawr, 29 Medi a gysylltir â Gŵyl Fihangel. Ddaru'r Hen Fihangel, 11 Hydref, ddim aros mor hir â'r Hen Galan ym meddylfryd y werin. Erbyn diwedd Medi ystyrid fod y mwyar wedi meddalu gormod neu oraeddfedu a'u bod yn dechrau troi ac yn debygol o newidio stumogau ifanc trwy greu'r bib ... felly coel i rybuddio plant yn bennaf rhag mentro eu bwyta. Yn ôl un traddodiad gwerin, dyma'r dydd y cafodd y diafol ei yrru o'r nefoedd ac fe laniodd yn y mieri yn uffern ac yna eu melltithio!

Annwyl Olygydd,

Fe fydd Clwb Rotary Aberystwyth yn trefnu casgliad eto eleni i godi arian at elusennau sy'n gwasanaethu ein hardal, a byddwn yn ddiolchgar am bob cefnogaeth gan ddarllenwyr y *Tincer*. Bydd y casgliad cyntaf yn archfarchnad Morrisons ddechrau mis Rhagfyr (rhwng y 3ydd a'r 9fed), ac yna ar Sgwâr Owain Glyndŵr yng nghanol y dre dros y penwythnos cyn y Nadolig.

Ein prif elusen eleni fydd Hosbis yn y Cartref a sefydlwyd ddechrau'r flwyddyn i roi cynhaliaeth angenrheidiol i gleifion yn eu cartrefi. Byddwn hefyd yn cefnogi Gofalwyr Ifanc (*Young Carers*) cylch Aberystwyth, y 'Blood Bikes' sy'n darparu gwasanaeth gwirfoddol i gludo gwaed i ysbytai i gwrdd â gofynion brys, a Chymdeithas Parkinsons leol. Gobeithir codi digon i wneud cyfraniadau hefyd i Glwb Henoed Penparcau, Cylch Meithrin Llanfarian a gweithgarwch ieuenctid Seindorf Arian Aberystwyth.

Mae dod wyneb yn wyneb â chasglwyr arian bob tro y bydd rhywun yn siopa yn gallu bod yn fwrn weithiau, ond gobeithio y gwnewch chi roi yn hael i gasgliad y Clwb Rotary, gyda'r sicrwydd y bydd pob ceiniog yn mynd tuag at elusennau sy'n gwneud gwaith gwerthfawr a phwysig yn ein cymuned leol yng ngogledd Ceredigion. Diolch i chi ymlaen llaw.

**HYWEL WYN JONES**
**Llanrhystud**
(***ar ran Clwb Rotary Aberystwyth***)

Ariennir yn Rhannol gan
Llywodraeth Cymru

## 30 MLYNEDD YN ÔL



Dyma blant Ysgol Trefeurig ar ôl eu gwasanaeth diolchgarwch yn yr ysgol.
(O'r *Tincer* Tachwedd 1985)

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Priodas Aur

Dymuniadau gorau i Dei a Nancy Evans, Tŷ-poeth, ar ddathlu eu priodas aur ar 26 Tachwedd. Daw'r cyfarchion oddi wrth y teulu, ffrindiau a chymdogion.

### Pen blwydd arbennig

Dymuniadau gorau i Vivian Morgan, Is y Coed, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar 10 Rhagfyr.

### Mair Stanleigh

Trist iawn yw gorfod dweud ffarwél wrth gymeriad arall o'r ardal. Bu Mr a Mrs Stanleigh yn byw gydol eu bywyd priodasol yn Nolfawr, Cwmrheidol. Roedd Mair yn gymeriad unigryw gyda diddordeb mawr yn hanes a bywyd yr ardal. Gyda chymorth ffrindiau a chymdogion o'r Cwm ac Aber-ffrwd llwyddodd i fyw yn annibynnol hyd at ryw ddwy flynedd yn ôl. Bu farw yng Nghartref Pennal View yn 102 oed. Cofiwn amdani gyda gwên ac anwyldeb mawr.

### Urdd y Benywod

Daeth Medwyn Parry o Lanafan atom y mis hwn i roi hanes y gyrrwyr beic modur sydd yn rhoi o'u hamser ar y penwythnosau i ddosbarthu offer meddygol i ysbytai Cymru. Gwirfoddolwyr yw'r rhain ac maen nhw'n arbed arian mawr i'r gwasanaeth iechyd drwy wneud y gwaith hwn; pe na byddai'r beicwyr ar gael byddai'n rhaid talu am dacsi, o bosib, o un rhan o'r wlad i'r llall. Daeth Medwyn â beic modur gydag ef a chawsom weld y modd y mae'r offer yn cael ei gario ar hyd ein ffyrdd. Mae'r gwasanaeth arbennig hwn yn dibynnu ar haelioni'r cyhoedd, ac mae'r gost o'i gynnal yn uchel iawn. Diolchodd Lorraine Maloney yn fawr am noson hynod ddiddorol. Gwnaethpwyd y te gan Beti a Norma ac enillwyd y raffl gan Ann Ellis.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Hydref 2015**

**£25** (Rhif 263) David James, Dolhuan, Llandre
**£15** (Rhif 154) Mary Thomas, Dolgelynen, Llandre
**£10** (Rhif 103) Bryn Roberts, Cilgwyn, 5 Brynmeillion, Bow Street

**Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tim dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Hydref 14**

# BOW STREET

**Suliau**
**Capel y Garn**
**10.00 a 5.00**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**
**Tachwedd**
22 Goronwy Prys Owen
29 I'w drefnu John Roberts
**Rhagfyr**
6 Noddfa Beti Griffiths
13 Oedfa Nadolig yr ofalaeth – y plant
20 Aelodau'r Eglwys Bugail (C)
27 J. E. Wynne Davies

**Noddfa**
**Tachwedd**
22 2.00 Gweinidog Cymundeb
29 10.00 Oedfa

**Rhagfyr**
6 10.00 Gweinidog Cymundeb. Y Garn yn ymuno
13 10.00 Cyfeillach
20 10.00 Nadolig Noddfa. Y Garn yn ymuno
24 23.30 Gwylos noswyl Nadolig
25 9.00 Uno yn y Garn
27 10.00 Uno yn y Garn



### Cydymdeimlad
Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Morfudd Rhys Clark, Bronceiro, fore Mercher, 4 Tachwedd, a hithau'n 95 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i merched Hilary a Gwenan a'u teuluoedd.

### Capel y Garn
**Y Gymdeithas Lenyddol**
A hithau'n flwyddyn dathlu canrif a hanner ers sefydlu'rWladfa ym Mhatagonia addas oedd dechrau'r tymor gyda sgwrs gan Elvey MacDonald, a anwyd ac a fagwyd yn y Wladfa ac sydd â gwybodaeth helaeth o'i holl hanes. Braint oedd cael clywed yr hanes gan un sydd â'i wreiddiau mor ddwfn yn naear y Wladfa.

### Oedfa Ddiolchgarwch yr Ofalaeth
Cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch yr Ofalaeth yng Nghapel y Garn fore Sul, 11 Hydref, gyda'r casgliad yn mynd tuag at gronfa *Water Aid*. Cafwyd cân gan blant a rhieni ysgol Sul unedig Bow Street, rhoddodd y gweinidog, y Parchg Wyn Rhys Morris, anerchiad pwrpasol i'r plant. Rhoddodd Cymdeithas y Chwiorydd eu gwasanaeth, yn cynnwys y cyflwyniad PowerPoint, i'r gynulleidfa ehangach.

### Bedydd
Brynhawn Sadwrn, 24 Hydref, bedyddiwyd Charlie Lewis Bates, mab bach Nia a Huw Bates, yn y capel gan y Gweinidog.

### Genedigaeth
Llongyfarchiadau mawr i Arwel a Lila, Llys Hedd, Bow Street, ar ddod yn fam-gu a thad-cu am yr eildro. Ganwyd Cadi Mair i Emyr George a Sarah Watson yn Nghaerdydd. Dymuniadau gorau i'r teulu bach, a chroeso cynnes i Cadi.

### Cangen Plaid Cymru
Cynhelir ffair Nadolig y Blaid ar fore Sadwrn, 11 Rhagfyr, yn y Morlan, Aberystwyth, a Changen Rhydypennau sy'n gyfrifol am y tombola eleni. Os hoffech helpu neu gyfrannu mewn unrhyw ffordd, cysylltwch ag anwenmai@hotmail.co.uk. Diolch ymlaen llaw am bob cymorth.

### Pen-blwydd
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mari Ffion Powell, 27 Maesceiro, ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar 18 Tachwedd. Fel mae'n digwydd, mae pen-blwydd Martin, ei thad, yr un diwrnod! Dathliad dwbl, felly ... ond bod 37 o flynyddoedd rhwng y ddau!

### Coleg
Pob dymuniad da i Zoe a Fay Walsh, Carreg Heulyn, y Lôn Groes, sydd wedi cychwyn yn y coleg. Mae Zoe yn astudio gwyddoniaeth filfeddygol yn y brifysgol yn Lerpwl a Fay yn y brifysgol yng Nghaeredin yn astudio bioleg. Yn ddiweddar, bu Fay yn cynrychioli tîm iau Prydain yn y gamp o drywyddu, neu *orienteering*, a hynny ar gyfer cwpan Ewrop yn Bad Harzburg yn yr Almaen. Mae'n siŵr fod aelwyd Carreg Heulyn dipyn yn dawelach heb y merched!

### Cymdeithas y Chwiorydd
Brynhawn Mercher, 7 Hydref, agorodd y gymdeithas y tymor trwy gynnal gwasanaeth diolchgarwch, yn ôl ein harfer. Pleoedd y gwasanaeth eleni am gymorth i gefnogi gwaith y gymdeithas ryngwladol *Water Aid*, sy'n ceisio gwella bywyd a lliniaru caledi trigolion ardaloedd sy'n dioddef o sychder difrifol. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan aelodau'r gymdeithas, gyda Llinos Dafis yn rhoi cyflwyniad PowerPoint diddorol a pherthnasol.

Brynhawn Mercher, 4 Tachwedd, cyfarfu'r Gymdeithas yn y Llyfrgell Genedlaethol lle cawsom ein tywys o gwmpas Arddangosfa Ffotograffau Philip Jones Griffiths gan Will Troughton, Curadur y Ffotograffau. Llongyfarchwyd Mr Troughton ar ei waith gwych yn dethol y lluniau i'w dangos o blith y cyfanswm o 250,000 o luniau sydd yn y casgliad llawn a'u gosod mewn trefn ystyrlon i'w gweld gan y cyhoedd. Mae'r arddangosfa hon o ffotograffau'n ymwneud â rhyfel a'i sgileffeithiau'n werth ei gweld; nodwch ei bod yn dod i ben ar 12 Rhagfyr.

### Gwobr Arbennig
Mae'r Dr Katharine Haynes yn uwch-ddarlithydd ym maes 'Bushfire and Natural Hazards for Risk Frontiers' ym Mhrifysgol Macquarie, Sydney. Magwyd hi yn Bow Street ac mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Rhydypennau



**Priodas**

Cynhaliwyd priodas Rhiannon Mair Powell, 27 Maesceiro a Mark Wyn Griffiths, Aberystwyth, yn Lerpwl ar 24 Gorffennaf. Mae Mark yn athro yn y ddinas honno a Rhiannon yn gweithio i elusen o'r enw UNO. Teithiodd llu o deulu a ffrindiau o'r cylch i'r briodas er mwyn cael bod yn rhan o'r dathliadau. Dymuniadau gorau iddynt a llongyfarchiadau mawr.

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cynhaliwyd cyfarfod o'r cyngor nos Iau, 17 Fedi, gyda'r Cynghorydd Jean Watson yn y gadair a'r cynghorwyr Andrea Jones, Dafydd Fryer, Aled Lewis, Bethan Bebb, Llinos Jones a Gareth Daniel yn bresennol. Trafodwyd y canlynol:

Braf yw nodi bod arwyddion cyflymder 20 mya wedi eu gosod bellach yng Nghapel Bangor.

Fe gyflwynodd y clerc geisiadau cynllunio i sylw'r cynghorwyr:

A150513: Codi annedd yng nghae Dolfawr, Glynrheidol, Cwmrheidol.

Gadawodd y cynghorydd Gareth Daniel yr ystafell tra bu trafodaeth ar y cais cynllunio uchod.

A150750 Adnewyddu a chodi estyniad i'r annedd presennol yn bwthyn Penffrwd-fach, Cwmrheidol.

A150652 Codi clwb golff newydd a chaffi, newid y clwb presennol i fod yn annedd ar gyfer rheolwr a pherchennog, a newid annedd y perchennog presennol i fod yn uned wyliau yn y clwb golff presennol.

Penderfynodd y cynghorwyr i gefnogi'r ceisiadau cynllunio uchod.

Nos Iau, 15 Hydref, gyda'r Cynghorydd Jean Watson yn y gadair a'r cynghorwyr Andrea Jones, Dafydd Fryer, Richard Edwards, Aled Lewis, Bethan Bebb, Gareth Daniel a Llinos Jones yn bresennol, fe drafodwyd y canlynol:

Cais Cynllunio A150709 Ysbryd y Mwynglawdd, hen safle gwaith mwyn yn Hen Goginan. Fe wnaeth Ben Little ymweld â'r Cygnor er mwyn trafod y cais cynllunio y mae wedi ei gyflwyno i Gyngor Sir Ceredigion, ac i esbonio beth yw ei obeithion am y safle yn y dyfodol.

Penderfynodd y cynghorwyr i gefnogi'r cais.

Peiriant y galon (diffibriliwr) – Cafwyd cais gan un o drigolion yr ardal am gael peiriant yng Nghapel Bangor. Os hoffech gyfrannu tuag at gostau prynu'r teclyn pwysig hwn, cysylltwch â'ch cynghorydd lleol neu'r clerc. Yn ogystal, hoffai'r cyngor wybod am lefydd addas i leoli'r teclyn yn yr ardal.

Gobeithir cynnal diwrnod ailgylchu nwyddau trydan bychain yn Neuadd Pen-llwyn yng Nghapel Bangor yn fuan.

Cofiwch am wefan y cyngor, sef http://www.ccmelindwr.tth5.co.uk

Os ydych yn ymwybodol o unrhyw broblem, yna cysylltwch â'ch cynghorydd lleol. Ebost cyswllt y clerc yw clerk@cyngor-melin-dwr-council.org.uk

ac Ysgol Pen-glais. Mae hi newydd dderbyn gwobr arbennig iawn – ASPIRE 2015 – sef gwobr sy'n cael ei chynnig i wyddonydd o dan 40 oed am gyflawni ymchwil arloesol ym myd gwyddoniaeth, ac am gydweithio â gwyddonwyr ifainc eraill.

Cafodd Katharine gydnabyddiaeth am ei gwaith yn y maes arbennig hwn, sef ceisio lleihau'r risgiau wrth ddelio ag argyfyngau naturiol, ac yn enwedig am ei gwaith gydag ieuenctid. Ymchwiliodd i'r posibiliadau o ddefnyddio gwyddoniaeth i wella polisïau a systemau'n ymwneud ag ystod o drychinebau naturiol meis tanau mawr mewn coedwigoedd, llifogydd, tsunamis, ffrwydradau folcanig, tywydd chwilboeth ac ati. Cydweithiodd yn ogystal ag academyddion a rheolwyr argyfwng mewn gwledydd megis Indonesia, Japan, Seland Newydd, ynysoedd y Philipinos a'r UD.

Dywedodd Dr Richard Thornton, cyfarwyddwr y Bushfire and Natural Hazards CRC, 'Mae ymchwil Dr Haynes wedi arwain at nifer o benderfyniadau a pholisïau i wella'r ffordd mae argyfyngau naturiol yn cael eu rheoli.' Llongyfarchiadau mawr iddi!

**Merched y Wawr**

Nos Lun, 12 Hydref, aeth criw ohonom ar ymweliad â Chanolfan Owain Glyndŵr, Machynlleth. Wil Evans a Dafydd Jones oedd yn ein harwain o amgylch y ganolfan, a chafwyd ganddynt hanes yr adeilad a chefndir sefydlu'r fenter. Cawsom fwyd blasus yng Nghaffi Alys, sy'n rhan o'r ganolfan, a chyfle i weld yr arddangosfa a phrynu crefftau. Diolchodd Shân Hayward, ein llywydd, yn gynnes iawn am y croeso, a chytunodd pawb iddo fod yn ymweliad diddorol iawn.



Cangen Merched y Wawr Rhydypennau fu ar ymweliad â Siop Alys, Machynlleth yn ddiweddar



Harddwch
Siriol
Beauty

07962 861 822

www.facebook.com/siriolbeauty

Brynsiriol,
Bow Street, Ceredigion SY24 5AR

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN









### Taith Ddiddorol

Dyma lun Mrs Joyce George (prifathrawes Bont, Mynach a Phonterwyd) gynt o Gwmwythig, a fu yn Tsieina dros wyliau'r hanner tymor. Bu'n ymweld ag ysgolion yno, a nodi eu dull hwy o ddysgu. Roedd cynifer â 60 yn rhai o'r dosbarthiadau, ac yn sicr roedd dysgu sut i ddangos parch yn rhan allweddol o addysg y plant. Cafodd Joyce, yn ei geiriau ei hun, ei thrin fel brenhines. Dyma hi a Mur Mawr China yn y cefndir, wedi iddi gerdded milltiroedd lawer.

### Arddangosfa

Ar 16–18 Hydref cafwyd arddangosfa yn yr Hen Gyfnewidfa, Capel Bangor, i ddathlu'r ffaith fod Daniel a Melanie Hughes a'r teulu wedi dychwelyd i fyw yno ar ôl ysbaid o dair blynedd. Bu prysurdeb mawr yn ystod y tridiau lle bu'r pwythwyr yn dod i weld yr arddangosfa arbennig o'u gwaith, fel y gwelir yn y lluniau.

Mae'r dosbarthiadau eisoes wedi cychwyn ar lawr uchaf y siop a gwelir datblygiadau diddorol ar y llawr isaf cyn bo hir. Cynhelir dosbarthiadau a chyrsiau bron bob dydd o'r wythnos a chyrsiau hefyd ar ddydd Sadwrn i blant oed uwchradd. Os am fanylion pellach cysylltwch â Melanie ar 880850 neu ebost melaniefabrics@aol.com. Mae ychydig o lefydd gwag ar gael y tymor yma. Dyma gyfle gwych i ddysgu crefft newydd, ac mae defnyddiau ac offer gwnïo ar werth yn ystod oriau'r dosbarth. Croeso i bawb daro heibio, a dymuniadau gorau i'r fenter.


### Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch y capel ar 23 Hydref, pan ddaeth aelodau a ffrindiau capeli cyfagos, a rhai â chysylltiadau eraill â'r cylch, ynghyd i ddiolch am y cynhaeaf a'r bendithion a gawsom drwy gydol y flwyddyn.

Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Carwyn Arthur o Dregaron.Yn ogystal â'r bregeth, bu'n siarad â'r plant wrth gyfleu stori gyfarwydd y ddau o Emaus, a hynny trwy gyfrwng paent a ffrâm bren.

Cymerwyd rhannau arweiniol gan blant yr ysgol Sul, a diolchwyd iddynt gan y gweinidog, y Parchedig Wyn Morris. Mynegodd hefyd groeso cynnes i'r gennad a'i wraig; daw hithau'n wreiddiol o Batagonia.

Miss Ann Vaughan a wnaeth y cyhoeddiadau, a diolchodd i bob un a oedd yn gyfrifol am addurno'r capel â ffrwythau, llysiau a blodau – gwledd i'r llygad yn wir. Yr organydd oedd Mrs Catrin Evans, Ardwyn.



### Gwahoddiad i'r Henoed

Ar brynhawn 21 Hydref estynnwyd gwahoddiad i henoed yr ardal i Ysgol Pen-llwyn, i wasanaeth gan blant yr ysgol,

yn mynegi eu diolch mewn gweddïau personol, a chanu caneuon pwrpasol. Cafwyd cwpanaid o de neu goffi, gyda darn blasus o fara brith.

Nododd y prifathro cynorthwyol, Gregory Roberts, mai dyma'r tro cyntaf i'r ysgol gynnal digwyddiad o'r math, a phwysleisiodd mor bwysig oedd cynnwys henoed y gymuned yn rhan naturiol o weithgarwch yr ysgol. Roedd pawb wedi mwynhau'r prynhawn, a diolch i holl staff yr ysgol yn ddiwahân am eu gwaith caled.

### Dymuniadau da

Cofion gorau i Mr Eifion Thomas, Ty'n Cwm, sydd wedi cael triniaeth feddygol yn ddiweddar. Dymunwn wellhad llwyr iddo. Hefyd, gwellhad buan i Angharad Edwards, Stad Penllwyn, sydd wedi torri pont yr ysgwydd wrth chwarae hoci.

### Ras yr Wyddfa

Llongyfarchiadau mawr i Anita Worthing, Dinas View, ar ennill Ras yr Wyddfa ddydd Sul, 1 Tachwedd. Gwelir Anita yn rhedeg ar lonydd yr ardal yn aml ac yn gwneud yr hyn y mae hi'n wirioneddol yn ei fwynhau. Pob lwc iddi yn y dyfodol.

### Merched y Wawr Cangen Melindwr

Nos Fercher, Hydref 14, ymunodd nifer o aelodau Merched y Wawr Melindwr â Changen Cylch Wyre yn neuadd y pentref, Llanrhystud. Cawsom ein diddori gan Gôr Cardi-gân, o dan arweiniad Sion Page. Roedd y croeso'n gynnes a'r côr yn fendigedig, a mwynhawyd gwledd o fwyd cyn mynd adref. Diolchodd Eirwen Mcnulty yn ei ffordd ddihafal ei hun i Ferched y Wawr Cylch Wyre am noson draddodiadol Gymreig.

Daeth mwyafrif o'n haelodau i gyfarfod 3 Tachwedd. Fe'n croesawyd gan ein llywydd, Delyth Davies, a rhoddwyd croeso arbennig i Mrs Elizabeth Evans, swyddog datblygu Merched y Wawr, Ceredigion a Sir Benfro, i'r cyfarfod. Darllenwyd cofnodion mis Medi a mis Hydref, ynghyd â chofnodion y cyfarfod rhanbarthol a gynhaliwyd yn ddiweddar. Tynnwyd sylw at y ffaith fod swyddi gweigion ar y pwyllgor, yn benodol swydd trysorydd y rhanbarth ac is-ysgrifennydd y pwyllgor celf a chrefft. Trafodwyd y Cwis Hwyl Cenedlaethol a threfniadau dathlu'r Nadolig.

Roedd gweddill y noson dan ofal Glesni Haf Powell. Milfeddyg yw Glesni, ond mae hi hefyd wedi cychwyn busnes o'r enw Crefftau'r Bwthyn. Pleser oedd clywed sut a pham iddi gychwyn ar ei menter, a bu'n ein diddanu trwy ddangos rhai o'i nwyddau hyfryd. Rhoddwyd y diolchiadau gan Angharad Jones, ac Eirlys Davies a Janet Armstrong oedd yng ngofal y te. Rhoddwyd y wobr raffl gan Janet ac ychwanegwyd ati gan Glesni, a'i hennill gan Glenys Jones.

### Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch yr eglwys nos Fercher, 7 Hydref, yng ngofal y Parchedigion Andrew Loat a Heather Evans. Y pregethwr gwadd oedd y Parchedig Ian Girling, Aberystwyth, a'r organydd oedd Mrs Kathy Cooper. Braf oedd gweld cynifer yn y gwasanaeth, a hyfryd oedd cael presenoldeb y Parchedig Lyn Lewis Dafis ar y noson. Addurnwyd yr eglwys yn hardd gan yr aelodau. Cyfanswm y casgliad oedd £90 a rhoddwyd cyfraniad a thuniau bwyd tuag at Banc Bwyd y Jiwbilî. I ddilyn cafwyd lluniaeth ysgafn yn neuadd yr eglwys a chyfle i gymdeithasu ymysg ein gilydd. Diolch i bawb am bob cymorth.


eich gwefan leol
www.trefeurig.org
your local website
newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

Siop
SGIDIAU GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland, Aberystwyth
SY23 2NL

01970 617092

Gwasanaeth
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

## Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor uchod ar nos Iau, 29 Hydref, yn Neuadd Rhydpennau o dan lywyddiaeth yr is-gadeirydd, y Cyng. Roland Rees. Dywedodd y Cyng. Paul Hinge ei fod yn argymell i'r Pwyllgor Cynllunio beidio â thrafod mater y twrbin gwynt ar fanc Ruel Uchaf yn eu cyfarfod Tachwedd, hyd nes y ceir cyfarfod safle yn wyneb yr holl wrthwynebiadau. Deellir hefyd fod rhai anghysonderau technegol wedi ymddangos yn y cais. Argymhellir hefyd fod pob gwybodaeth yn cael ei hanfon i Dirymynach yn ogystal â Genau'r Glyn, gan fod y safle yn fwy gweledol o Bow Street.

Mae'r fantolen ariannol wedi cael ei derbyn gan yr archwilwyr yn Southampton, a hynny ar gost of £246. Deallir fod symudiad ar droed i newid yr asiantaeth yma.

Gan fod teclyn Diffibriliwr (peiriant y galon) mewn nifer o bentrefi cyfagos, daeth cais oddi wrth grŵp o bobl, dan arweiniad Mrs Lowri Evans, am gyfraniad i fedru pwrcasu o bosib tri o'r peiriannau yn ardal Bow Street. Maent yn costio tua £700 yr un, ond efallai fod grant (bach!) yn rhywle. Penderfynodd y Cyngor dalu am un pan ddaw'r amser.

Yn dilyn canmoliaeth gyffredinol i drefniadau Clwb Pêl-droed Bow Street yn trefnu'r tân gwyllt ar noson Guto Ffowc, penderfynwyd cyfrannu £300 at y costau eleni. Ni chymerodd y Cyng. Vernon Jones ran yn y drafodaeth.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cyng. Paul Hinge ei fod yn gobeithio bod mater y parcio ar y mynediad i dai blaen Tregerddan wedi ei ddatrus. Mae astudiaeth ar Gynllun Trafnidiaeth Bow Street (hynny yw agor yr orsaf ac ati) yn mynd yn ei blaen. Bu cyfarfod o PACT, gyda phobl Clarach yn cwyno am y goryrru yn Llangorwen. Gwneir cais yn fuan am declynau gwylio'r gymuned.

Mae'r meinciau wedi eu pwrcasu a thrafodwyd y man i'w cadw cyn eu gosod. Dywedwyd bod cwmni lleol sy'n defnyddio toiledau allanol y Neuadd wedi bod yn glanhau a thwtio yn gyffredinol, ond nid oedd sicrwydd am hyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 26 Tachwedd 2015.

# CAPEL MADOG A MADOG

**Madog**
**2.00**
**Tachwedd**
22 Goronwy Prys Owen
29 I'w drefnu
**Rhagfyr**
6 Bugail (C)
13 Oedfa Nadolig yr ofalaeth - y plant
20 I'w drefnu
27 J. E. Wynne Davies

### Diolch

Dymuna Eirian Hughes, Lluest Fach, ddiolch o galon i bawb am y cardiau, galwadau ffôn, pob ymweliad a charedigrwydd a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar.

### Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd cyfarfod diolchgarwch Capel Madog, nos Fercher, 28 Hydref. Y bregethwraig wadd oedd y Parchg Carys Ann o Benrhiw-pal. Cawsom ganddi bregeth amserol iawn, gan ein hatgoffa bob amser mor bwysig yw cofio rhoi diolch. Ymunodd rhai cyfeillion o eglwysi eraill â ni. Addurnwyd y capel yn hardd gan Margaret Hughes ac Aldwyth Lewis, a'r organydd oedd Angharad Rowlands.



Ddydd Mawrth, Tachwedd 3, mynychodd Tegwyn ac Aldwyth Lewis, Rhos-goch, dderbyniad yng Nghanolfan y Mileniwm fel rhan o gynhadledd y Bwrdd Marchnata Gwlân. Hefyd yno roedd Elin Jones AC a chynrychiolwyr eraill o'r diwydiant yng Ngheredigion.

# GOGINAN

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Colin a June Baxter, Oak Dale, ar farwolaeth chwaer Colin. Roedd Linda wedi ymgartrefu ym Mhontarddulais, ond collodd ei brwydr yn erbyn salwch creulon ar ddechrau mis Hydref, a bu farw yn Ysbyty Treforus. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

### Dymuniadau gorau

Pob lwc i Ian Price, Troedrhiwcastell, sydd wedi teithio i Sealand Newydd i weithio fel saer am flwyddyn neu ddwy.

### Pen blwydd Hapus

Dymunwn ben-blwydd hapus i Aled Bebb, Penpistyll, wrth iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 70 ar 3 Rhagfyr.



Corlan geffylau newydd Bwlch Nantyrarian yn barod ar gyfer ei hymwelwyr cyntaf. Ceir olygfa dda i'r ceffylau tra mae'r marchogion yn cael diod yn y Ganolfan Ymwelwyr!

# DÔL-Y-BONT

### Diolch

Dymuna Gloria a'r teulu, Maes y Leri, ddiolch i'w ffrindiau a'u cymdogion am eu cefnogaeth, caredigrwydd a'u cydymdeimlad ar yr achlysur trist o golli Dyfrig mor sydyn. Diolch arbennig i Ritchie Jenkins am dalu teyrnged ddiffuant iawn i Dyfrig yn ystod y gwasanaeth yn Eglwys Sant Mihangel, ac am y cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru er cof am Dyfrig.

### Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch Capel y Babell pnawn Sul, 25 Hydref. Ein gweinidog, Y Parchg Wyn Rh. Morris, oedd yng ngofal y gwasanaeth.

### Pen-blwydd Arbennig

Bydd Mrs Joy Evans, Tynsimdde, yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 ar 28 Tachwedd. Pen-blwydd hapus a phob dymuniad da, Joy!

**inc**
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
**Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion**
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
**01970 626200**

# LLANDRE

### Merched y Wawr

Cafwyd sgwrs a sleidiau diddorol iawn gan Medwyn Parry ar ran Beiciau Gwaed Cymru. Roedd yn sôn am y gwasanaeth gwirfoddol roedd tîm ohonynt yn ei gynnal yn trosglwyddo gwaed o un ysbyty i'r llall, a hynny ar foto-beics ar benwythnosau. Trefnwyd y noson gan Llinos Dafis a Nans Morgan, a diolchwyd i Medwyn gan Llinos.

### Enillwyr Banc Bro Clwb 50

**Hydref**

1 Bryn Roberts
2 D Francis
3 Sue Jones

**Tachwedd**

1 Regina Jones
2 Dilwyn a Carys Jones
3 Endaf Griffiths

### Cofio Dai England

Roedd marwolaeth Dai England, yn sgil damwain fis Mawrth eleni, yn ergyd fawr iawn i'r teulu ac i'r ardal. Roedd yn ddyn teulu ac yn un o drigolion mwyaf poblogaidd a hawddgar y pentre.

Bu Dai yn weithgar iawn yn yr ardal ac roedd yn gyn-drysorydd *Y Tincer*. Roedd yn Gynghorydd Cymuned, warden Eglwys Llanbadarn Fawr, llywodraethwr Ysgol Rhydypennau, trysorydd y Banc Bro ac yn un o hoelion wyth Clwb Rygbi Aberystwyth.

Trefnir achlysur i gofio am fywyd Dai ac am ei gyfraniad mawr i'r fro, yn festri Bethlehem, Llandre, am 6.30 nos Wener, 20 Tachwedd. Darperir te/coffi a chacen, stondinau bwyd a llyfrau, raffl a chyfraniadau cerddorol gan Gôr Ger-y-lli.

Dymuniad y teulu yw bod yr arian a godir yn mynd i gronfa Ambiwlans Awyr Cymru, a'r nod yw codi swm teilwng er cof am Dai. Ni fydd tâl mynediad ond bydd cyfle i wneud cyfraniad ariannol tuag at yr achos teilwng hwn.

Trefnir y noson gan **y** Banc Bro. Roedd Dai yn un o'r sylfaenwyr ac yn drysorydd ac yn gydlynydd gweithgar y Clwb 50.

Os na fedrwch ymuno yn y noson, hwyrach yr hoffech gyflwyno eich cyfraniad ymlaen llaw i un o swyddogion y Banc Bro: Wynne Melville Jones, Y Berllan (cadeirydd); Gwenda James,Tremedd (ysgrifennydd); Richard Evans, Llawr-y-Glyn, Lôn Glanfrêd (trysorydd).

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i Banc Bro. Byddwn yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth.

Mae trefniadau hefyd ar y gweill i blannu coeden yn y gwanwyn ym mharc y pentref er cof am Dai.

### Treftadaeth Llandre

Peter Lord, yr hanesydd celf, yw siaradwr gwadd Treftadaeth Llandre yn ystod mis Tachwedd, i'w gynnal yn festri Bethlehem nos Iau, 26 Tachwedd, am 7.30. "Eich hynafiaid: peintio wynebau Cymreig 1660 – 1860" fydd testun ei sgwrs, gyda nifer o Gardis ym mhlith y portreadau. Mae'n gyfle i glywed un o arbenigwyr mwyaf hanes celf yng Nghymru ac mae'n awdur nifer o lyfrau yn y maes. Croeso cynnes i bawb.



Derbyniodd Gwynfryn Evans, Y Ddôl, Llandre, wobr 'Cyfraniad Arbennig' yng Nghynhadledd Plaid Cymru ar 25 Hydref. Cynog Dafis, ei gymydog, a gyflwynodd y wobr iddo. Daeth Gwynfryn, sydd yn frodor o Bennal ger Machynlleth, yn aelod o'r Blaid flynyddoedd lawer yn ôl – pan symudodd i Dregaron, galwodd Cassie Davies heibio i'w groesawu, a ffurflen ymaelodi yn ei llaw! Bu yn ei dro yn asiant etholiad ac yn gadeirydd y pwyllgor rhanbarth. Ef yw trysorydd presennol Cangen Rhydypennau, a gwerthfawrogir cyfraniad a chefnogaeth Gwynfryn yn fawr gan ei gyd-aelodau.

**Ymunwch â grŵp Facebook Ytincer**


Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?
Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys; cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:

Dysgu Bro Ceredigion Community Learning
01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk

**Cronfa Eleri**

**Blwyddyn 2015 – dros £18,000 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
**Tel:** 01970 832551 **e-bost**: ymholiadau@cronfaeleri.com

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 16eg 2016**

Amcanion Cronfa Eleri
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

# PENRHYN-COCH

**Gwasanaethau Horeb**
**Tachwedd**
22 10.30 Ysgol Sul 10.30 Y Parchg John Roberts
29 10.30 Gwilym Tudur


**Rhagfyr**
6 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
13 10.30 Y Parchg Judith Morris Oedfa deuluol
20 2.30 Gwasanaeth Nadolig Horeb
25 Cymun bore'r Nadolig Y Parchg Judith Morris
27 10.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa ola'r flwyddyn

## Diolchgarwch Horeb



Cynhaliwyd cwrdd diolchgarwch Horeb nos Fercher, 7 Hydref, pan bregethwyd gan y Parchg Lyn Lewis Dafis. Roedd yn dda cael croesawu cyfeillion o Eglwys Sant Ioan a rhai o gapeli yr ardal atom i'r oedfa. Cymerwyd rhan gan Mairwen Jones, Anwen Morris, Eirian Reynolds, Glenys Morgan a William Howells. Cafwyd eitem hefyd gan y parti merched (hyfforddwraig: Mair Evans). Ceris Gruffudd oedd wrth yr organ ac addurnwyd y capel gan Mairwen Jones. Cyflwynwyd y casgliad, sef £100, i Ffoaduriaid Syria.

## Lansio cofiant




Lansiwyd hunangofiant Bryan Jones (Bryan yr Organ) yn Theatr Felin-fach ar 4 Tachwedd. Cyhoeddwyd *O Ffyrgi i Ffaro* gan Wasg Gomer.

## Swydd newydd

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Lisa Jones, Bodorgan gynt, ar gael ei phenodi'n athrawes Gymraeg yn Ysgol Gyfun Cymer Rhondda.

## Cymdeithas y Penrhyn

Ein siaradwr ym mis Hydref oedd Eirionedd A. Baskerville, Abermagwr, cyn-aelod o staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ysgrifennydd Cymdeithas Hanes Ceredigion ac aelod o Bwyllgor Dathlu 2015 Cymdeithas Cymru Ariannin. Y mae'n arbenigo ar hanes teulu ac yn un o'n prif arbenigwyr ar hanes teuluoedd y Wladfa. Ar ymweliad â'r Wladfa ym 1996 darganfu fod ganddi deulu yno; er mai yn y Rhondda y magwyd Eirionedd, mae teulu ei mam (cyfenw James) yn hanu o Geredigion – yr un teulu â theulu James Nant-y-moch, ac aeth Richard James, Aberpeithnant, Ponterwyd i'r Wladfa.
Cyhoeddodd Eirionedd *Cydymaith i'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia,* adnodd sydd ar gael ar wefan Cymdeithas Ariannin, yn Gymraeg a Saesneg. Dyma gyfrol sydd, yn ôl yr Athro Wyn James, "yn fwynglawdd o wybodaeth am bob agwedd ar y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia ac yn gyfeirlyfr anhepgor i bawb sy'n ymddiddori yn y bennod nodedig hon yn hanes Cymru ac Ariannin." Mae pennod ganddi hefyd, 'Welsh emigrants to Patagonia', yn *The Family and Local History Handbook*, 2002, ac yn fwy diweddar mae'r Lolfa wedi cyhoeddi ei llyfr *Patagonia 150*. Cafwyd sgwrs hynod ddifyr ganddi yn cyfeirio at ymfudwyr i'r Wladfa o Geredigion ac yn benodol o'r ardal hon, megis John Morgan, Pwll-glas – teulu Richard Griffths, Santa Fe, ac Ebenezer a Lewis Burrell, Cwmystwyth. Diddorol oedd deall y bu cangen o'r Cwmni Ymfudo yn Aberffrwd, ag 83 o aelodau'n perthyn iddi.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Connie Evans, Gwawrfryn, a'r teulu ar golli ei chwaer, Marjorie Bowyer, yn ddiweddar ar ôl cystudd blin. Un o'r cylch hwn oedd Marjorie ac yr oedd yn ymweld â'r ardal yn aml. Roedd yn ymuno â Connie i fynd ar deithiau Cymdeithas y Penrhyn bob blwyddyn. Roedd ganddi un mab, Geraint, ac mae ein cydymdeimlad yn fawr iawn ag ef.

Hefyd ein cydymdeimlad â theulu Mr Reid, Ger-y-llan. Bu gwasanaeth yn Eglwys Sant Ioan ar 3 Tachwedd, ac yna yn yr amlosgfa.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Mr a Mrs D Price, Dolmaeseilo, ar golli mam Gwenan, sef Morfudd Clark, Bow Street, yn ddiweddar.

Ein cydymdeimlad hefyd â theulu, ffrindiau a pherthnasau'r ddiweddar Sally Jones, Pencefn, Penrhyn-coch.

## Marjorie

Bydd llawer un, fel fi, yn drist o golli un o'n ffrindiau hoff ers dyddiau plentyndod, sef Marjorie Bowyer (Andrews gynt), un o blant Pen-bont Rhydybeddau, fu farw ar 17 Hydref yng Nghaerdydd, lle cartrefodd Geraint ei mab a hithau ers degawdau. Bu Marjorie yn fam a thad ardderchog i Geraint a bu yntau yn hynod ofalus o'i fam, yn enwedig yn ystod cyfnod anodd ei salwch. Cyflwynodd Geraint deyrnged hyfryd iddi yn y gwasanaeth gynhaliwyd yng Nghapel y Wenallt ac wedyn yn Amlosgfa Thornhill, Caerdydd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan weinidog y fam a'i mab o Gapel Ebeneser, Caerdydd, lle bu'r ddau'n ffyddlon a gweithgar gydol y blynyddoedd, sef y Parchg Alun Tudur, wedi'i gynorthwyo gan y Parchg. Eirian Rees, fu'n gyfaill gwerthfawr i Marjorie am ddeugain mlynedd.

Maged Marjorie, Connie ei chwaer a'u brodyr Derek a Brian, yn y Bryngwyn, Pen-bont, yn blant i Tom a Bessie Andrews, ac yr oeddynt ymhlith criw mawr o blant oedd yn y pentref ar y pryd, yn cynnwys fy nghyfnither Olwen a'i brodyr Gwynfor, Islwyn ac Elfed. Cerddai'r plant i Ysgol Trefeurig lle'r oedd Daniel Jones, o Fronnant, yn brifathro blaengar, a Miss Evans yn cerdded yn ddyddiol o Bont-goch i'w gynorthwyo. Bûm innau yn yr ysgol am gyfnodau byr pan oedd Mam bob yn ail â'i chwiorydd yn cynorthwyo Anti Mary i weini ar Mam-gu Tynewydd, lle'm ganed i.

Roeddwn wrth fy modd gyda'r criw yn yr ysgol, y pentref a'r ysgoldy, cangen o gapel Bedyddwyr y Tabernacl, Cwmsymlog, lle cynhelid ysgol Sul ac oedfaon gwahanol i'r arfer dan arweiniad Connie, gwraig Dan Jones, y Parchg. Dafydd ap Morgan a'i wraig Mair Elli. Roedd yn arbrawf eciwmenaidd llwyddiannus gan fod aelodau tri enwad yn addoli'n llawen gyda'i gilydd. Gresyn na fyddai hynny wedi parhau a datblygu. Mae Marjorie yn un o 34 yn y llun diddorol o 1942 a welir yn llyfr David Jenkins, *O Blas Gogerddan i Horeb*, 1993. Bu'r ysgol Sul yn dra llwyddiannus yn ystod yr Ail Ryfel Byd

yn arholiadau Undeb y Bedyddwyr.

Bu'r hyn a brofodd Marjorie yn Ysgoldy Pen-bont yn gymorth iddi wrth weithio mewn banc NatWest yn Llundain. Parhaodd i addoli yn y ddinas a bu Dan Jones, a symudodd o Ysgol Trefeurig i'r ddinas, yn gefn iddi mewn cyfnod anodd. Symudwyd o'r ddinas i Gaerffili, lle bu Geraint yn yr ysgol a'i fam yn gweithio fel clerc ysbyty a chlerc ysgol wedyn. Buont yn ffodus o gael cymorth Eirian Rees ac Ann a chriw da o gyfeillion. Yr un fu'r profiad wedi cartrefu yn y ddinas yn Encil, yr Eglwys Newydd, lle treuliodd Marjorie weddill ei hoes. Bu Geraint a hithau yn rhan werthfawr o fywyd Capel Ebeneser, ac o barch iddi, chwiorydd y capel oedd yn gyfrifol am y lluniaeth ar ddiwrnod yr angladd.

Gan ein bod yn dathlu canrif a hanner sefydlu'r Wladfa eleni mae'n briodol sôn am dri ymweliad Marjorie a'i chefnder Ken James, Llanbadarn â Phatagonia. Aethant yno'n benodol i chwilio am garreg fedd Elizabeth, chwaer eu tad-cu, a deithiodd o Benrhyn-coch i'r Wladfa yn ifanc a phriodi John B. Evans, fferm Mallwyd (oddi yno yr ymfudodd) Tir Halen, Dolavon. Dywedir ar y beddfaen ym mynwent Tir Halen i Elizabeth farw ar 7 Rhagfyr 1917, yn 40 oed – nid yw enw'i gŵr yno. Ar ôl i Gwenda a minnau fod yn y fynwent yn 2007 wrth fedd Dafydd Jones, Ddôlfawr, Llanuwchllyn, fu farw'n 93 oed, y soniodd Marjorie am fedd chwaer ei thad-cu.

Er iddi fyw yng Nghaerdydd am fwy na hanner canrif nid anghofiodd Marjorie y graig y naddwyd hi ohoni ac ymwelai'n gyson â Connie a'r teulu gan drysori'r cyfle o gael addoli yn Horeb gyda'i chwaer, a seiadu gyda ninnau, ei chyfoedion. Noson dathlu priodas aur Connie ac Eddie buom yn dwyn i gof ddyddiau diddorol Pen-bont a'r ardal, er enghraifft, noson y tân gwyllt ar Benringsen, yn ymyl Banc-y-darren a'r rhostio tatws blasus yng ngwres y goelcerth. Does ryfedd, felly, mai ar y llecyn hwnnw y dymunodd Marjorie i'w llwch gael ei wasgaru.

Wrth ddiolch am fywyd a chyfeillgarwch Marjorie anfonwn ein cofion at Geraint, fu mor ofalus o'i fam gydol y blynyddoedd, at Connie a'i theulu ac at ei ffrindiau yn Nhrefeurig a Chaerdydd.

**W J Edwards**




Brownies Penrhyn-coch yng ngwasanaeth Sul y Cofio

### Costa Ceredigion

Mae'n debyg i'r tri lle cynhesaf ym Mhrydain ar 2 Tachwedd fod yng Ngheredigion. Gogerddan (21.1) Trawsgoed (21.1) a Swyddffynnon (20.5)

### Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Cynhelir Eisteddfod Penrhyn-coch 2016 ar Ebrill 22–23. Y beirniaid i'r cystadlaethau lleol ar y nos Wener fydd Cerdd: Geraint Thomas, Rhydyfelin a Llefaru: Meleri Morgan, Bwlch-llan.



Geraint Thomas



Jordan Jones a Sion Humord yn eu gwisgoedd ar gyfer cynhyrchiad *Les Miserables*



### Priodas

Priodwyd Nia Thomas, Llys Myrddin, ac Irfon Richards o Aberaeron, ar 8 Awst yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth. Cynhaliwyd y wledd yng Ngwesty'r Conrah, Rhydgaled. Treuliwyd eu mis mêl yn Nghaliffornia ac maent wedi ymgartrefu yn Llanrhystud. Dymuniadau gorau i'r ddau.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Ann James, Pen-banc, sydd yn yr ysbyty yng Nghaerdydd ar ôl damwain yn ei chartref.

Hefyd Connie Evans, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, 8 Hydref, aeth y gangen i ymweld â siop Ji-binc yn Aberaeron ac fe gawsom yr holl hanes gan y perchennog sut roedd wedi dechrau ar ei menter. Cafodd pawb gyfle i siopa a chael cwpanaid cyn gadael. Diolchodd Glenys Morgan am y croeso arbennig a gafwyd yn Ji-binc. Yna fe aethpwyd i dafarn y Monachty i gael swper, a chael croeso arbennig yno hefyd. Cytunodd pawb iddi fod yn noson wych – diolch i Glenys Morgan a Janis Morris am drefnu.

Dymunwn wellhad buan i Ann James ar ôl damwain yn ei chartref, ac i Joan, mam Miriam Garrett, dwy o'n haelodau ffyddlon. Dymunir dymuniadau gorau i Miriam a'r teulu yn eu cartref newydd yn Ger-y-llan.

# Belaod y coed yn cyrraedd Cwmrheidol



Yn helpu i gyflwyno y belaod i Gwmrheidol mae (o'r chwith i'r dde): Nick Young, Cyfoeth Naturiol Cymru; Amy Treanor, Sw Caer; David Bavin, swyddog prosiect VWT; Sarah Bird, Lucy Edwards a Dave Hall, i gyd o Sw Caer a Jenny Macpherson, rheolwr prosiect VWT.

Mae'r cynllun cyntaf ar raddfa Brydeinig i achub un o'n hanifeiliaid cigysol prinnaf wedi dechrau. Mae belaod y coed brodorol o'r Alban yn dechrau ar fywyd newydd yng Nghymru, ac mae rhagor ohonyn nhw ar y ffordd!

Y Vincent Wildlife Trust (VWT) sy'n arwain y gwaith. Mae gan yr elusen hon 30 mlynedd o brofiad mewn cynnal ymchwil ar felaod y coed ac mae'r ymddiriedolaeth heddiw'n falch iawn o gyhoeddi bod y gwaith o drawsleoli belaod i Gymru wedi cychwyn.

Mae 'Prosiect Achub Bele'r Coed' (www.pine-marten-recovery-project.org.uk) wedi golygu llawer o waith cynllunio gofalus gan elusen sy'n enwog am ei gwaith gyda'r creadur swil hwn. Ac eithrio'r gath wyllt, dyma'r anifail gwyllt cigysol prinnaf ym Mhrydain.

Mae'r boblogaeth o felaod y coed yn yr Alban yn iach ac yn cynyddu, ond mae'r rhywogaeth mewn peryg o ddiflannu'n llwyr o Loegr a Chymru. Er mwyn ceisio adfer y boblogaeth o felaod coed yng Nghymru mae'r VWT yn bwriadu trawsleoli 20 bele o'r Alban i goedwigoedd yng nghanolbarth Cymru eleni, ac yna 20 bele arall yr hydref nesaf. Dylai hyn arwain at greu poblogaeth sy'n gallu cynnal ei hun a lledaenu hefyd, dros amser, i fforestydd eraill yng Nghymru a thros y ffin i Loegr.

Yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf roedd belaod y coed wedi diflannu o bobman, bron, yn ne Prydain. Llwyddodd y rhai oedd ar ôl i ddal eu gafael yn ucheldiroedd pellennig gogledd-orllewin yr Alban ac mewn ambell fan yn ucheldiroedd gogledd Lloegr a Chymru. Yr erlid cynyddol ar anifeiliaid ysglyfaethus, yn enwedig wrth i saethu gêm ddod yn fwy poblogaidd, oedd yn bennaf gyfrifol am dranc beload y coed – a hynny'n ychwanegol at ddiflaniad cymaint o goedwigoedd aeddfed, sef



eu hoff gynefin. Heddiw mae belaod y coed ar gynnydd ar hyd a lled yr Alban. Ond islaw ffin yr Alban mae'r sefyllfa'n llawer mwy difrifol ac nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bendant o adferiad naturiol yn nifer y belaod.

Mae'r VWT wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid ac arbenigwyr er mwyn gwireddu'r prosiect i drawsleoli belaod. Mae Scottish Natural Heritage wedi rhoi trwydded i'r VWT ddal belaod, mae Comisiwn Coedwigaeth y Alban wedi caniatáu mynediad i'r tir ac mae'r anifeiliaid yn cael eu gollwng dan drwydded ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ac sy'n cael ei reoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r llociau gollwng yng Nghymru wedi cael eu cynllunio a'u hadeiladu gan staff Sw Caer, sy'n un o brif bartneriaid y prosiect. Mae Coed Cadw a'r People's Trust for Endangered Species hefyd yn bartneriaid allweddol o ran ariannu'r prosiect, ac mae nifer o fudiadau ac unigolion eraill yn cefnogi'r prosiect mewn gwahanol ffyrdd, yn cynnwys Wildlife Vets International sy'n cynnig cyngor a nwyddau milfeddygol allweddol. Rydym yn dal i chwilio am arianwyr a phartneriaid eraill ar gyfer prosiect a fydd yn debyg o gostio tua £1.2 miliwn dros 5 mlynedd.

Yn ystod degawdau olaf yr 20fed ganrif bu'r VWT yn flaenllaw yn yr ymdrech i achub y dyfrgi a llygoden bengron y dŵr rhag difodiant. Wrth i elusen y VWT ddathlu ei phen-blwydd yn 40 oed eleni mae'n braf gweld ein bod ni eto'n rhoi cymorth angenrheidiol i un arall o famaliaid brodorol Prydain.

Ffeithiau am felaod y coed

- Mae bele'r coed yn famal brodorol ym Mhrydain ac yn yr Iwerddon. Mae'n aelod maint canolig o deulu'r carlymiaid (sef teulu'r wenci) ac mae'n perthyn i'r ffwlbart, y dyfrgi, y mochyn daear, y carlwm a'r wenci. Ar ôl tyfu'n llawn mae belaod y coed yn debyg o ran maint i gathod dof bach, ac mae'r gwrywod yn fwy na'r benywod o rhyw drydydd rhan.
- Corff ystwyth, tenau sydd gan fele'r coed. Mae'r gynffon hir yn drwchus a blewog yn ystod y gaeaf. Mae'r blew brown cyfoethog yn cyferbynnu â'r clwtyn neu'r 'bib' lliw hufen ar y gwddf a'r frest, ac mae blew gwelw i'w gweld y tu mewn i'r clustiau amlwg, crwn (mae maint y bib yn amrywio a gall fod bron yn absennol ar rai belaod.)
- Mae'n debyg bod bele'r coed wedi cyrraedd Prydain yn fuan ar ôl diwedd yr Oes Iâ ddiwethaf, sef tua 9,500 mlynedd yn ôl. Gan mai coedwigoedd yw ei hoff gynefin byddai wedi bod llawer mwy niferus pan oedd Prydain ac Iwerddon wedi eu gorchuddio gan fwy o goed. Mae yna awgrym mai bele'r coed oedd yr ail anifail cigysol mwyaf niferus ym Mhrydain tua 6,500 mlynedd yn ôl!
- Mae beload y coed yn byw ar eu pennau eu hunain am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Mae pob oedolyn yn byw o fewn tiriogaeth sy'n amrywio o 20 i 3000+ hectar, yn dibynnu ar ansawdd y cynefin.

# O'r Cynulliad – Elin Jones



Yn ystod mis Hydref, roedd hi'n braf iawn cael croesawu Nicola Sturgeon, Prif Weinidog yr Alban, i Geredigion wrth iddi ymweld â chynhadledd Plaid Cymru yn Aberystwyth. Dyma'r tro cynta iddi ddod i Geredigion, a chefais gyfle i ddangos rhywfaint o Aberystwyth iddi, ac hefyd i sôn am ein Gwasanaeth Iechyd a'r angen i gadw gwasanaethau'n lleol, a hithau'n parhau i fod â diddordeb mawr ym maes iechyd ers iddi fod yn Weinidog Iechyd yn Llywodraeth yr Alban. Roedd y gynhadledd yn sicr yn un fywiog a chadarnhaol, a da hefyd oedd cael cadarnhad yn ystod y gynhadledd o ddewis Dafydd Llywelyn, y darlithydd criminoleg o Landysul, fel ymgeisydd y Blaid ar gyfer etholiad comisiynydd Heddlu Dyfed Powys y flwyddyn nesa. Edrychaf ymlaen yn fawr at gydweithio ag ef.

Yn gynharach yn y mis, cefais gyfle i draddodi darlith oedd yn gosod syniadau newydd ar gyfer diwygio gofal i'r henoed a'r rheiny sy'n diodde o dementia. Yn hanesyddol, mae rhaniad rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Os caiff rhywun ddiagnosis cancr, gallant ddisgwyl cael y rhan fwya o'u gofal am ddim, ond nid felly yn achos rhywun â dementia, fyddai o bosib yn talu am ofal, am ei fod yn cael ei ddiffinio fel gofal cymdeithasol. Hoffwn weld y rhaniad yma'n diflannu o fewn degawd, fel y medrwn integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn llawn, a sicrhau tegwch i bawb o ran gofal.

O ran tegwch i'r henoed, mae ymgyrch 'Wythnos Fawr Arbed Ynni' Cyngor Ar Bopeth yn un sy'n haeddu sylw, a da oedd cael croesawu'r mudiad i Aberteifi ar gyfer eu lansiad. Amcan yr ymgyrch yw rhoi cymorth i bobl, yn enwedig pobl oedrannus, i siopa am y fargen orau ar danwydd, gan gynnwys helpu'r rhai niferus sydd oddi ar y grid nwy i gael pris teg trwy gynlluniau cydbrynu cymunedol. Yn aml dyw pobl ddim yn sylweddoli faint y mae modd ei arbed trwy siopa am y fargen orau, a'r camau bach y gellid eu cymryd i leihau eu defnydd o ynni – er lles yr amgylchedd ac er lles poced y Cardi!



# Prysurdeb Meilyr

"Un o bleserau annisgwyl y flwyddyn" yw'r ffordd y disgrifiwyd Meilyr Jones yn y *Guardian*, 10 Tachwedd. Mae'r cerddor ifanc a hynod dalentog, sy'n dod yn wreiddiol o Bow Street, yn gobeithio y bydd ei albwm unigol cyntaf yn barod rywdro yn ystod 2016. Yn y cyfamser, mae'n bwriadu rhyddhau fersiwn cyfyngedig o'i sengl, 'How to Recognise a Work of Art', ar 8 Ionawr, ac mae'r fideo sy'n cyd-fynd â'r sengl i'w gweld ar y we. Sonia Meilyr iddo sgwennu'r gân am ddiwylliant modern ein hoes, am y pwysau sydd arnon ni i brynu nwyddau penodol, ac i ymddwyn mewn ffordd arbennig. "Mae'r gân yn llawn hiwmor ac yn gwneud hwyl am ben ein hobsesiwn â chwlt yr artist," meddai Meilyr yn y *Guardian*. Dymuniadau gorau iddo ar y fenter newydd hon, ac edrychwn ymlaen at glywed llawer mwy amdano yn y dyfodol agos.

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
**DEG DROS DDEG: FY NEGAWD I**
(7.30, 4 Rhagfyr). Fel rhan o'r deg digwyddiad dros ddeg mis i nodi dengmlwyddiant Morlan, bydd Sian Howys, Alun Morris, Judith Morris a John Roberts yn trafod eu profiadau ffydd yn y cyfnod ers agor Morlan. Cadeirydd: Pryderi Llwyd Jones. Mynediad: £3.
**Manylion llawn ar wefan Morlan**:
www.morlan.org.uk
Morlan, Morfa Mawr,
Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com
@CanolfanMorlan

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-5.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

ytincer@gmail.com

# Llun y mis


**Llun o gasgliad Iestyn Hughes, Maes-y-garn, Bow Street.**
**Gellir gweld mwy o'i luniau ar ei wefan http://www.atgof.co/**



Ynys-las – Gweddillion y *Moringen* ar lanw isel yn Ynys-las. Llong 217 tunnell o Norwy oedd y *Moringen*, oedd yn cario coed i Aberdyfi pan suddodd yn Ynys-las, mewn storm enbyd ym Mehefin 1877. Achubwyd y criw o chwech gan fad achub Aberdyfi.

## Adolygiad

Caryl Lewis Y *Bwthyn*.
Y Lolfa. £8.99 160t




Bydd darllenwyr selog gweithiau Caryl Lewis yn gyfarwydd â'i dull amheuthun a chynnil o gyflwyno'i darllenwyr i ffordd o fyw cymuned gyfan, yn ogystal ag i'w phrif gymeriadau. Cyflawnodd y gamp unwaith eto yn ei nofel ddiweddaraf, Y *Bwthyn*.

Ffermwyr defaid ar fryniau Ceredigion yw Enoc ac Isaac. Ar ddiwrnod angladd Hannah, gwraig Enoc a mam Isaac, y gwelwn ni nhw gyntaf. Yn fuan ar ôl hynny daw dydd hel y defaid a dyna pryd y gwelwn ni'r tad a'r mab yn rhan o gymuned ehangach y mynydd. Mae'r awgrym o densiynau beirniadol rhwng y gwahanol deuluoedd – eu beirniadaeth o ymddygiad cŵn ei gilydd, er enghraifft – yn tynnu gwên, ac yn dod â'r gymdeithas yn fyw i ni.

Daw dyn dieithr, dyn o'r dref, Owen, i'w plith y diwrnod hwnnw. Yn ei sgil ef cawn ninnau gyfle i ddod i nabod y sefyllfa a'r bobl yn well.

Mae yma wrthdaro, tristwch, caledi, amheuaeth, cenfigen, ac eiliadau o dynerwch a charedigrwydd cynnes yn ogystal. Yn raddol down i amau bod rhyw gysgod sy'n peri bod yma fwy na'r tyndra arferol rhwng tad a mab. I ni, sydd ddim yn rhan o gymdeithas y mynydd, mae'n tyfu'n ddirgelwch. Mae'r eglurhad ar y diwedd yn ddigon i dorri'r galon galetaf.

I ategu'r stori gref yma mae'r disgrifiadau manwl telynegol o olygfeydd y mynydd yn ystod y gwahanol dymhorau, a'r syndod sy'n tyfu'n barch, a welwn drwy lygaid Owen, at y bobl sy'n deall natur i'r graddau eu bod yn gallu byw gyda hi a'i rheoli, o fewn rheswm, at eu dibenion eu hunain.

Mae'r awdures yn cydnabod ei dyled i ddau o feibion y bryniau hyn, sef Gomer James, a fagwyd ar fferm Hirnant, Ponterwyd, a John R. Hughes, Pen-cwm, am rannu eu hatgofion a'u gwybodaeth â hi. Diolch iddi hithau am weld eu gwerth a'u trosglwyddo i ni wedi eu cofnodi mewn modd mor feistrolgar.

**Llinos Dafis**

## Canlyniadau tîmau Pêl-droed Penrhyn-coch

Tîm cyntaf
10/10/15 – Cynghrair
Penrhyn-coch 8 – 1
Bow Street

17/10/15 – Tlws CBD
Cymru
Penrhyn-coch 3 – 2
Llannerch-y-medd

24/10/15 – Cwpan
Cynghrair
Prifysgol Aberystwyth 1 – 4
Penrhyn-coch

31/10/15 – Cwpan Cymru
Penrhyn-coch 4 – 0
Bae Trearddur

Ail Dîm
10/10/15 – Cynghrair
Eilyddion Bow Street 2 – 2
Eilyddion Penrhyn-coch

17/10/15 – Cwpan
Cynghrair
Padarn – 5 – 1 Eilyddion
Penrhyn-coch

24/10/15 – Cynghrair
Eilyddion Penrhyn-coch
1– 3 Padarn

31/10/15 – Cynghrair
Dolgellau 4 – 0 Eilyddion
Penrhyn-coch

Menywod
27/9/15 Penrhyn-coch 1 – 3
Llambed

11/10/15 Penrhyn-coch 3 – 0
Prifysgol Aberystwyth

18/10/15 Penrhyn-coch 2 – 2
Felin-fach

25/10/15 Y Geltaidd 0 – 13
Penrhyn-coch

1/11/15 – Cynghrair Llety
Parc, Aberystwyth
Felin-fach 3 – 2
Penrhyn-coch

# Colofn Enwau Lleol

## Tirion

Digwydd *tirion* yn gyffredin mewn enwau lleoedd ar draws Cymru, a cheir enghraifft o'r enw *Bryntirion* uwchlaw pentref Penrhyn-coch. Ansoddair yw *tirion* yma, yn disgrifio *bryn* mewn lleoliad 'teg' neu 'hyfryd'.

Ond gall *tirion* hefyd fod yn enw, ac mae *Geiriadur Prifysgol Cymru* yn cynnig 'tiroedd; tiriogaeth, gwastadedd, neu dir glas' fel ystyron posibl iddo. Mewn gwirionedd, *tir* yw elfen gyntaf yr enw. Dyma'r gair a welir yn yr enwau lleoedd *Tirion Twrog* ym mhlwyf Llandwrog a *Thirionpelyn* yn Llanllyfni, sir Gaernarfon, a *Thirion-y-mab* yn Llandysilio, Môn.

Yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru* yn yr erthygl ar y gair *tirion*[2], ac yng nghyfrol Bedwyr Lewis Jones *Yn Ei Elfen* (t. 83), cofnodir mai'r un elfen a welir hefyd yn yr enwau *Tirion-fach* a *Thirion-fawr* yng ngogledd Ceredigion, sef anheddau a safai gynt ar lan Afon Lluest Gota, i'r gogledd o gronfa Nant-y-moch.


Serch hynny, mae'r ffurfiau cynharaf a gofnodir gan Iwan Wmffre o'r enwau hynny yn *The Place-Names of Cardiganshire* (t. 1146), sef *Nant Bryn Tirion* a *Nant Bryn Tyrion* (os gellir bod yn siwr mai'r un lle sydd dan sylw) yn awgrymu'n gryf mai'r ansoddair *tirion* sydd yma.

Dyna amlygu felly y perygl o geisio dehongli enwau heb yn gyntaf astudio'r ffurfiau cynharaf sydd ar gael ohonynt.

Angharad Fychan

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org


Capsiwn y map:
© Crown Copyright and Landmark Information Group Limited (2015). All rights reserved. (1890s).




# Taith gerdded y mis

## Penbontbren Uchaf i Bont-goch

**Man dechrau**: Y ffordd o Dal-y-bont i Benbontbren Uchaf Lle ar y chwith cyn y nant.
**Map**: OS Explorer 213. GR669885.
**Pellter**: 4.5 milltir. Cymedrol.




O'r man parcio ymlaen ar y feidr a throi i'r chwith ar ôl adeiladau'r ffarm. Mynd ar hyd y feidr a throi i'r chwith pan welwch iet fach. Bydd y llwybr yn eich arwain lawr heibio hen waith mwyn a thros y bontbren ac i fyny o amgylch Plas Cefn Gwyn i gyrraedd y ffordd. I'r dde yma ac ar ôl ychydig troi i'r dde lawr feidr arall at yr afon. I fyny heibio Ffynnonwared ac i fewn i'r caeau ar y dde. Cadw i'r chwith nes cyrraedd sticl a mynd i'r chwith drwy iet ac fe welwch ysgubor. Heibio'r adeilad a dilyn y feidr nôl i Benbontbren Uchaf ac i'r man dechrau.

Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

Bwyd Da . . .
Cwmni Da . . .
yBlac TALYBONT



Eleni, beth am Barti Nadolig bythgofiadwy yn yBlac!
Ffoniwch neu e-bostiwch i archebu.
01970 832 555 croeso@yblac.co.uk

Pennau

COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Caffi 01970 820 050 | Siop Treasures 01970 820 122

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 15 Medi, yn Neuadd y Penrhyn, gyda'r Cadeirydd, y Cynghorydd Dai Mason, yn y gadair.

Materion yn codi: y tir ger Horeb – roedd yr aelodau eisoes wedi cael nodyn am y cyfarfod a fu ym mis Gorffennaf rhwng Dai Mason ac Eirian Reynolds ar ran y Cyngor Cymuned a Lyndon Griffiths, swyddog o'r Cyngor Sir. Roedd Mr Griffiths wedi dweud y byddai'r Cyngor Sir yn debyg o ganiatáu creu lle parcio ar y tir gyferbyn â Horeb. Byddai hyn yn hwyluso traffig yn fawr iawn, yn enwedig pan gynhelid angladdau neu briodasau etc. yn y capel. Roedd hefyd wedi awgrymu y byddai'r cais yn debyg o gael mwy o flaenoriaeth pe gallai'r Cyngor Cymuned gynnig cyfraniad ariannol tuag at y gost. Cytunwyd y gellid gwneud hyn (heb benodi swm ar hyn o bryd), ac fe ddywedodd Eirian Reynolds y byddai eglwys Horeb hefyd yn gallu cynnig cyfraniad.

Meinciau newydd – roedd y meinciau newydd wedi cyrraedd, a byddent yn cael eu gosod cyn y cyfarfod nesaf.

Parcio ger Maes Seilo – dim gwybodaeth bellach.

Y ffordd i Salem – nododd Mel Evans ei fod yn falch iawn fod y ffordd i Salem bellach wedi cael wyneb newydd. Gofynnodd Edwina Davies i'r Clerc gysylltu unwaith eto â'r Cyngor Sir i gael pyst du a gwyn ar ochr y ffordd rhwng Pant-drain a Bronheulwen.

Cynllunio – fe roddodd y Cadeirydd adroddiad am y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn ar 8 Medi i drafod y cais am dwrbein gwynt ar dir Pen-cwm. Rhoddwyd adroddiad llawn am y cyfarfod hwn yn y *Tincer* fis Medi. Dywedodd y Cadeirydd fod y cais wedi ei newid rywfaint: byddai llafnau'r twrbein 3 metr yn llai yn awr. Penderfynodd y Cyngor gefnogi'r cais, ond gan nodi hefyd nad oedd hi'n dderbyniol nad oedd dim lluniau o'r olygfa debygol o bentref Penrhyn-coch wedi eu cyflwyno gyda'r cais.

Materion eraill:
Gŵyl Coed Nadolig yr Eglwys – cytunwyd y byddai'r Cyngor yn cymryd rhan eleni eto.

Tir ger Tŷ Gwyn – tynnodd Shân James sylw at y ffaith fod perchnogion Tŷ Gwyn wedi bod yn defnyddio'r tir glas ar ochr y ffordd i gadw brics etc. tra oedd gwaith adeiladu yn digwydd ar eu tir hwy. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir gysylltu â'r perchnogion i ofyn iddynt sicrhau fod y tir cyhoeddus yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 20 Hydref, yn Neuadd y Penrhyn, gyda'r Is-gadeirydd, Eirian Reynolds, yn y gadair yn absenoldeb y Cadeirydd.

Croesawyd y Parchg Lyn Lewis Dafis i'r cyfarfod; roedd yn bresennol gan mai ef fyddai'n cymryd y gwasanaeth wrth y gofeb ar Sul y Cofio. Trafodwyd y trefniadau ar gyfer y gwasanaeth ac yna fe adawodd Mr Dafis y cyfarfod.

Materion yn codi:
Y tir ger Horeb – nid oedd dim datblygiad pellach wedi bod. Gan y gallai hi gymryd cryn amser cyn y byddai'r Cyngor Sir yn gallu gwneud y gwaith, awgrymodd Mel Evans y dylid gofyn i'r Cyngor Sir a fyddai hi'n bosibl i'r Cyngor Sir drosglwyddo'r tir i'r Cyngor Cymuned fel y gellid trefnu i wneud y gwaith yn lleol. Nododd Shân James fod cais cynllunio ar gyfer tai yn y cae gyferbyn â'r capel yn cael ei drafod yn nes ymlaen, ac efallai y gallai'r Cyngor Sir ystyried mater y lle parcio yn y cyd-destun hwnnw. Gofynnwyd i'r Clerc drafod hyn gyda'r CS.

Meinciau newydd – roedd llythyr wedi'i dderbyn oddi wrth Patrasa yn nodi fod dwy fainc wedi eu gosod yng nghae chwarae Penrhyn-coch yn lle dwy oedd yn perthyn i Patrasa, yn hytrach nag yn lle y rhai oedd yn eiddo i'r Cyngor. Penderfynwyd ymddiheuro am y camgymeriad, a threfnu cyfarfod rhwng Eirian Reynolds, Glenys Morgan o Patrasa a'r sawl a wnaeth y gwaith i weld beth fyddai orau i'w wneud.

Parcio ger Maes Seilo; tyllau yn y ffordd ger Troed y Rhiw, Capel Dewi; a'r pyst rhwng Pant-drain a Bronheulwen – dim datblygiadau.

Cynllunio: fel y nodwyd uchod roedd cais am godi 11 o dai yn y cae gyferbyn â Horeb. Roedd y cais hwn wedi'i ganiatáu ers sawl blwyddyn, ond gan nad oedd sôn am ddechrau ar y gwaith, nid roedd y caniatâd bellach yn ddilys. Dim gwrthwynebiad.

Materion i'w codi:
Nodwyd fod pant dwfn yn y palmant ger Glan Ffrwd a oedd yn beryglus i gerddwyr – y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir. Roedd angen torri'r clawdd ger Simne Wen, a thocio'r coed sydd wedi gordyfu ar y ffordd i mewn i Faes Seilo. Nodwyd hefyd fod weiren bigog ar y giât sydd ar y llwybr ger Brogynin, ac roedd person wedi anafu ei llaw yno'n ddiweddar. Addawodd Eirian Reynolds edrych i mewn i'r mater. Llwybr Penrhiwnewydd i Pengelli – roedd angen clirio ar y llwybr hwn, ac addawodd y Clerc gysylltu ag Aled Jones i ymweld â'r safle.

**Dilynwch y Tincer ar Trydar @TincerY**

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

y tincer

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
Perchnogion: Gwyn a Janet Evans
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

# Ysgol Pen-llwyn











### Pêl-droed

Cafodd y tîm pêl-droed amser da yn nhwrnament yr Urdd. Enillwyd un gêm a chafwyd rhai gemau cyfartal. Roedd yn braf gweld y plant yn mwynhau cymdeithasu gyda phlant cylch Aberystwyth. Ymlaen i'r twrnament nesaf!

### Ras Hwyl Rheidol

Cafwyd diwrnod penigamp ar 4 Hydref wedi i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon drefnu ras hwyl 5k. Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr gyda phawb wedi mwynhau! Diolch yn fawr i Elen Howells am drefnu'r digwyddiad, i Statkraft am gyfrannu'r medalau ac i'r holl rieni eraill am helpu.

### Pen-blwydd Cathy

Pen-blwydd hapus i Cathy ein cogyddes yn 50 oed! Cafwyd dathliad mawr yn yr ysgol. Rydym ni fel ysgol yn ddiolchgar iawn i Cathy am ei holl waith a'i bwyd hyfryd yn ystod y tymor!

### Arad Goch

Cafwyd perfformiad arbennig gan Arad Goch mis yma. Enw'r sioe oedd *Hola* ac roedd yn sôn am daith y Cymry i Batagonia. Roedd y plant wedi mwynhau, gyda'r ddrama yn sbarduno'r plant i ddysgu mwy am Batagonia fel rhan o'n thema.

### Trawsgwlad

Llongyfarchiadau i blant dosbarth 2 a 3 am gymryd rhan yn nhrawsgwlad cylch Aberystwyth. Llongyfarchiadau i Ana a Deian am fynd trwyddo i'r rownd nesaf.

### Sbri Di-ri

Aeth dosbarth 1 draw i Ysgol Pen-glais mis diwethaf er mwyn ymuno â hwyl y Sbri Di-ri. Roedd y plant wedi mwynhau canu a dawnsio yng nghwmni plant eraill. Diolch yn fawr i'r Urdd am drefnu diwrnod grêt!

### Sioe Nadolig

Bydd y sioe Nadolig yn cael ei chynnal ddydd Iau, 3 Rhagfyr, yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor. *Ei Stori Ef* yw enw'r sioe ac mae yna groeso i chi i gyd i ymuno yn yr hwyl. £4 i oedolion /£1 i blant hyd at oedran uwchradd. Cewch fins-pei a diod am ddim! Dewch i gefnogi'r ysgol a mwynhau hwyl yr ŵyl!

### Diolchgarwch

Cafwyd prynhawn hyfryd ar ddiwedd y mis wrth i ni ddathlu diolchgarwch yng nghwmni henoed yr ardal.

Cafwyd cyfle i ganu, perfformio darnau llefaru a chyflwyno gweddi neu ddwy i'r sawl oedd yno. Diolch i Mrs Morgan dosbarth 3 a Cathy am baratoi bara brith hyfryd a chwpaned o de!

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**Iwan Jones**
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

WALKER'S DOG WALKERS
CERDDED CŴN A GWARCHOD ANIFEILIAD ANWES
Bryn Walker, Llety'r Ddwylan
Pen-bont Rhydybeddau
Aberystwyth SY23 3EZ
01970 828066 07971942877
lletyr@btinternet.com

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân
01970 820149
07980 687475

ytincer@gmail.com

# Ysgol Penrhyn-coch

### Diolchgarwch
Cafwyd gwasanaeth arbennig yn yr ysgol yn ystod y mis, gyda phob dosbarth yn cyflwyno neges ar y thema 'Diolchgarwch'. Cyfranodd nifer o deuluoedd roddion i Gartref Tregerddan, Bow Street. Diolch i chi am gyfrannu, ac i bawb fu'n helpu.

### Diogelwch Tân
Cafodd plant yr ysgol gyflwyniad a sgwrs amserol gan swyddogion y Gwasanaeth Tân am sut i gadw'n ddiogel ar noson tân gwyllt. Roedd ymateb a gwybodaeth y plant yn dda iawn ac fe gafodd pawb noson hwyliog – a saff – wrth wylio'r tân gwyllt.

### Archarwyr y Cyfnod Sylfaen
Gosodwyd gwaith cartref heriol a gwahanol i ddisgyblion blwyddyn 2 dros wyliau'r hanner tymor, sef creu gwisg archarwr gwreiddiol, a chafwyd diwrnod llawn hwyl wrth i bawb ddod i'r ysgol yn eu gwisgoedd. Roedd yna alluoedd a phwerau o bob math gan archarwyr Ysgol Penrhyn-coch, o gasglu dail yr hydref i greu blodau lliwgar!



## Tymor y Nadolig
## yng Nghapel y Garn

28 Tachwedd ·10–12 y bore
Paned a Chroeso ar drothwy'r Adfent. Byddwn yn derbyn rhoddion ariannol tuag at y Banc Bwyd lleol.

2 Rhagfyr · 2.30 y pnawn
'Paratoi ar gyfer y Nadolig' gyda Shân James, Pen-banc. Te i ddilyn yng nghwmni Cymdeithas y Chwiorydd

10 Rhagfyr . 6.30 yr hwyr
Cyngerdd Nadolig Ysgol Rhydypennau

11 Rhagfyr · 7.30 yr hwyr
'Dathlu'r Nadolig' gydag Alan, Geraint ac Alun yng nghwmni Cymdeithas Lenyddol y Garn

13 Rhagfyr · 10 y bore
Oedfa Gymun Nadolig yr Ofalaeth

20 Rhagfyr · 10 y bore
Gwasanaeth Nadolig y plant yng Nghapel Noddfa

20 Rhagfyr . 5 yr hwyr
Gwasanaeth 'Y Gair a'r Geiriau'

25 Rhagfyr · 9 y bore
Oedfa Gymun deuluol

*Croeso cynnes i bawb*



### Ymweliad â Neuadd Condover, canolfan breswyl ger Amwythig





### Darllen difyr dros wyliau'r Haf
Cafodd tri o ddisgyblion yr ysgol fedalau aur a thystysgrifau am iddyn nhw ymweld â llyfrgell y dref yn ystod gwyliau'r haf, a darllen pentwr o lyfrau o'u dewis. Llongyfarchiadau i Carys James, Elis Wyn a Catrin Richards ar eu llwyddiant.

### Croeso
Hoffwn groesawu Logan a'i deulu i'r ysgol. Mae Logan yn ddisgybl newydd ym mlwyddyn 2.


**D J Evans**
**Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
47 Heol Maengwyn Machynlleth SY20 8EB
Swyddfa'r Ysgubor, Alexandra Rd. Aberystwyth SY23 1LN

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**


### Dyddiadur Condover
**Dydd Llun**
Cyrhaeddon ni a chawsom groeso neis gan bobl yn Condover. Aethon ni mewn i'r ystafell ro'n ei rhannu efo Seren, Cerys, Isabelle ac Olivia. Y gweithgaredd cyntaf oedd saethyddiaeth. Y noson gyntaf cafon ni selsig a tatws i swper!

**Dydd Mawrth**
Codais am 6.30 y bore ac am 7.15 roeddwn yn cael brecwast yn y lle bwyd. Es i gael iogwrt a croissant. Y gweithgaredd cyntaf oedd dawnsio. Roedd y sesiwn mewn stiwdio fach yn y plas mawr. Roedd yn ddoniol oherwydd roedd Trystan wedi sgidio ar ei bengliniau ac wedi gwneud sŵn mawr! Wedyn aethon i ddringo wal. Cyrhaeddais y top!

**Dydd Mercher**
Codais yn gynnar iawn am 6.30 ac es i nofio a chwarae gêmau yn y pwll. Pan aethon ni mas o'r pwll aethon ni nôl i'r ystafell a siarad. Cafon ni amser wrth ein boddau. Tri diwrnod ffantastig!

# Ysgol Rhydypennau

### Diolchgarwch

Ddydd Iau, 22 Hydref, cynhaliwyd ein gwasanaeth diolchgarwch blynyddol. Yn dilyn trefn y ddwy flynedd ddiwethaf, mentrwyd allan o neuadd yr ysgol i Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn ble ymunodd nifer o drigolion y gymuned â ni. Cafwyd gwledd o ganu a llefaru graenus. Yn ystod ein gwasanaeth trefnwyd casgliad ar gyfer ein helusen am eleni, sef Ffoaduriaid Syria, a chasglwyd £200.

Hoffwn fel ysgol ddiolch i'r eglwys, yn enwedig i'r Parchedig Peter Jones, am hwyluso'r trefniadau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolch hefyd i Mrs Llinos Dafis, ein gwraig wadd. Diolch i Mrs Meinir Fleming a staff y gegin am luniaeth y prynhawn, heb anghofio chwaith am Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol – diolch iddyn nhw am gwrdd â'r costau teithio.

### Noson Goffi

Ar 8 Hydref cynhaliwyd noson goffi er mwyn codi arian i'r unedau meithrin a derbyn. Trefnwyd stondinau, te, coffi a raffl. Yn ystod y gwario a'r sgwrsio codwyd £225. Diolch yn fawr iawn i bawb fu'n cefnogi.

### Trawsgwlad

Cynhaliwyd cystadleuaeth trawsgwlad cylch Aberystwyth ddydd Gwener, 9 Hydref, ar gaeau Penweddig. Cynrychiolwyd yr ysgol gan 59 o blant blynyddoedd 3 i 6. Llwyddodd pob un ohonynt i gwblhau'r cwrs a chafwyd perfformiadau arbennig gan y canlynol, gan iddynt orffen yn y deg cyntaf:

Erin Heston Kenny, bl 3; Lleucu Siôn, bl 4; Gwion Humphreys, bl 4; Elen Morgan, bl 5; Lili Lyons, bl 6.

Mi fydd y rhain yn rhedeg yn erbyn y goreuon o Geredigion fis Ebrill nesaf. Pob hwyl iddynt!

### Mynd am Dro

Fe aeth y dosbarth meithrin a'r derbyn ar daith bws yn ddiweddar. Pwrpas y daith oedd ymweld â choedwig Gogerddan. Wrth fynd am dro drwy'r coed, gwelwyd nifer o bethau diddorol iawn, gan gynnwys bywyd gwyllt a phlanhigion amrywiol. Cafwyd cyfle hefyd i arsylwi ar yr holl ddail sydd wedi disgyn o'r coed yn ystod yr hydref a bu'r plant wrthi'n ddiwyd yn cymharu eu siapiau a'u lliwiau.

### Bingo

Ar 15 Hydref trefnodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol noson fingo yn y neuadd. Cafwyd noson hynod o gymdeithasol gyda llwyth o wobrau da yn cael eu cynnig – a chacennau blasus. Yn ystod y difyrrwch, codwyd dros £200 tuag at goffrau'r ysgol. Yn ychwanegol at hyn ac yn dilyn sesiwn o wirfoddoli gan ffrindiau ac aelodau'r Gymdeithas, derbyniwyd rhodd o £100 gan glwb Triathlon Tal-y-bont.

### Llysgenhadon Ifanc

Er mwyn hyrwyddo iechyd a ffitrwydd mae Llysgenhadon Ifanc wedi eu penodi ar draws ysgolion Ceredigion. Yn Ysgol Rhydypennau penodwyd Chloe Jones, blwyddyn 6 a Harri Jones, blwyddyn 5 yn llysgenhadon; ac y mae'r ddau wedi derbyn hyfforddiant gan gydlynydd amlsgiliau'r sir, Alwyn Davies. Erbyn hyn mae Chloe a Harri'n trefnu sesiynau bob bore Llun a phob bore Iau o 8:15 ymlaen. Mae'r sesiynau yn agored i bawb.



Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Llandre.



Chloe Jones a Harri Jones-ein Llysgenhadon ifanc am eleni.



Plant yr uned feithrin yn mwynhau yn y goedwig.

### Ymweliad Blwyddyn 2 â Choedwig Gogerddan

Aethon ni am daith i'r goedwig gyda Leigh Denyer o Gyfoeth Naturiol Cymru. Cerddon ni drwy'r goedwig ac edrych ar liwiau hardd yr hydref. Dysgodd Leigh i ni sut i ddweud beth oedd oed coeden trwy fesur o gwmpas y boncyff. Ar ôl cinio buon ni'n adeiladu lloches a hefyd rhostio marshmalos a chnau ar y tân. Diolch i Leigh am ddiwrnod bendigedig!

### Clwb Cant

Dyma ganlyniad Tachwedd

1af - £25 Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd, Llandre

2il - £15 Sally a Billy, Tŷ Du.

3ydd - £10 Lleucu Siôn, Tyddyn Llwyn, Llandre

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
*http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*

# Tasg y Tincer

Diolch i bawb fu'n lliwio llun y pwmpenni'r mis diwetha – dyma'r enwau: Sion Davies, Llangeitho; Elin Pierce Williams, Bow Street; Gwawr Morgan, Llandre; Lucie Medhurst, Penrhyn-coch; Glain Erin ac Ela Grug, Tal-y-bont.

Dy lun di, Gwawr, ddaeth o'r het y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr i ti, ond daliwch ati, bawb!

Gobeithio bod pawb wedi mwynhau gwylio'r tân gwyllt ar ddechrau'r mis. Mae mor braf gweld yr awyr dywyll yn llawn o liw a chlywed y synau cyffrous wrth i bawb fwynhau'r sioe. Mae pobl y Wladfa ym Mhatagonia wedi bod yn mwynhau sioe go arbennig hefyd yn ystod yr wythnosau diwethaf, wrth i gerddorfa o Gymru – Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC – ymweld â nhw. Aeth yr offerynnwyr yr holl ffordd i Batagonia – siwrne o dros 7,000 o filltiroedd. Ac wrth gwrs, roedd rhaid mynd â'r holl offerynnau hefyd, o'r picolo lleiaf i'r tiwba mwyaf! Daeth cannoedd i fwynhau'r cyngherddau – roedd dros fil o bobl wedi mynd i'r gyngerdd yn Nhrelew. Roedd y gerddorfa'n helpu dathlu 150 mlynedd ers i'r Cymry cyntaf hwylio i'r Wladfa ar y *Mimosa*, ac rwy'n siŵr y bydd pawb yno'n cofio am ymweliad y gerddorfa am amser maith.

Y mis hwn, beth am liwio llun y band yn mwynhau? Ydech chi'n chwarae offeryn?

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP, erbyn 1 Rhagfyr. Ta ta tan toc!



Gwawr Morgan



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn Oed


**M THOMAS**
Plymwr Lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio
ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

**TACSI EDDIE**
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773 442 260
Bronllys, Capel Bangor
Aberystwyth



ISSN 0963-925X
9 770963 925009

Rhif 383 | TACHWEDD 2015